Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau **Ffurflen PRS/2011**
TGAU a Sgiliau Gweithredol
Cyfres Tachwedd 2011

Y gwasanaethau sydd ar gael a ffioedd CBAC

Ymholiadau am Ganlyniadau

Mae dogfen y Cyd-Gyngor *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau* yn rhoi gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau sydd ar gael.

Gofynnir i chi nodi y gall canolfannau wneud cais ar-lein am wasanaethau ar ôl y canlyniadau CBAC, trwy'r wefan ddiogel (www.wjecservices.co.uk).

		TGAU	**Modiwlau TGAU**	**Sgiliau Gweithredol (yr uned)**
Gwasanaeth 1	Ail-wiriad clerigol a datganiad o'r marciau.	£20	£10	£10
Gwasanaeth 2	Ail-wiriad clerigol, adolygiad o'r marcio ar ôl y canlyniadau a datganiad o'r marciau fesul cydran ar gyfer ymgeisydd unigol.	£46	£35	£35
Gwasanaeth 3	**Ni ddarperir y gwasanaeth hwn ar gyfer ymgeiswyr unigol.** Adolygiad ar ôl y canlyniadau o safoni'r marciau gwaith cwrs ac adroddiad byr ar asesiad y gwaith cwrs. Dylid anfon samplau gwaith cwrs gyda'r cais. (Gweler trosodd)	£32 yr ymgeisydd yn y sampl wreiddiol	£32 yr ymgeisydd yn y sampl wreiddiol	Amh.

Dychwelyd Sgriptiau wedi'u Llungopïo a Chynlluniau Marcio cysylltiedig			
Dychwelir y sgriptiau wedi'u llungopïo gyda chanlyniad yr ymholiad. (Y ffi i'w thalu yn ychwanegol at y ffi briodol ar gyfer yr ymholiad)	£12 y sgript	£12 y sgript	£12 y sgript

Dychwelyd Scriptiau

Sgript wreiddiol	£9 y sgript

Trosodd.

- **Dyddiadau cau**

  Atgoffir canolfannau na ellir derbyn ceisiadau ar ôl y dyddiadau hyn.

  Ymholiadau am Ganlyniadau

  9 Chwefror: Y dyddiad olaf i CBAC dderbyn ceisiadau am ymholiadau am ganlyniadau.

  Dychwelyd Sgriptiau

  28 Chwefror: Y dyddiad olaf i CBAC dderbyn ceisiadau am sgriptiau gwreiddiol.

- **Cyflwyno ceisiadau**

  (i) **Peidiwch** ag anfon y ffi gyda'r ffurflen gais. Anfonebir y ganolfan fel y bo'n briodol.

  (ii) Rhaid cyflwyno pob cais ar ran ymgeiswyr mewnol gan Bennaeth y Ganolfan.

  (iii) Y ganolfan ddylai ymgymryd â'r holl ohebiaeth gyda CBAC ar ran ymgeiswyr mewnol, nid yr ymgeiswyr na'u rhieni.

  (iv) Dylid cyflwyno pob cais ar-lein.

  (v) Os bydd angen y gwasanaeth yn Gymraeg, dylid rhoi tic yn y blwch priodol.

  (vi) Rhaid anfon gwaith cwrs sydd ym meddiant y ganolfan i'r cyfeiriad canlynol CBAC, Uned A16/A17, Ffordd Gwaelod y Garth, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, CF37 5XF.

- **Ail-farcio cydrannau TGAU**

  Derbynnir ceisiadau am ail-farcio cydrannau unigol cymwysterau TGAU llinol. Bydd y ffi fesul cydran yn hanner y ffi am y pwnc cyfan. **Cofiwch nodi'n eglur iawn y gydran y gwneir yr ymholiad amdani.**

- **Cynlluniau marcio**

  Bydd cynlluniau marcio'n cael eu rhoi ar wefan ddiogel CBAC.

- **Neges i ganolfannau**

  Rhaid i CBAC gadw gwaith yr holl ymgeiswyr sy'n cyflwyno ymholiad am ganlyniadau am ddim llai na 12 mis ar ôl eu hysbysu o ganlyniad yr ymholiad.